**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Plismona yng Nghymru

25 Medi 2023

Annwyl Dafydd

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch i chi a'ch cydweithwyr am roi tystiolaeth ychwanegol yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth mewn perthynas â'r uchod ym mis Gorffennaf.

Wrth i'r cyfnod casglu tystiolaeth ddirwyn i ben, daeth yn amlwg bod rhaglenni cyflawnwyr ledled Cymru yn amrywio o ran eu fformat a'r graddau y maent ar gael, a hefyd o ran y modd y cânt eu monitro a'u gwerthuso. Er i ni sôn ryw ychydig am drefniadau i'r heddlu gyfeirio pobl at raglenni cyflawnwr yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi braslun o'r rhaglenni rydych yn ymwybodol ohonynt yng Nghymru, gan ddweud i ba raddau rydych yn ymwneud â nhw. Allech chi gynnwys manylion unrhyw raglenni cyflawnwr rydych chi'n eu hariannu; pam rydych wedi dewis ariannu'r rhaglenni cyflawnwr penodol hyn; a sut rydych yn sicrhau bod swyddogion rheng flaen yr heddlu yn ymwybodol o raglenni o'r fath fel y gallant wneud atgyfeiriadau priodol i ymyrryd yn gynnar rhag i drais ar sail rhywedd waethygu neu ddigwydd eto.

Gan ein bod wedi cyrraedd diwedd y cyfnod casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Hydref, os oes modd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament